# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 3 Mai 2019
## Tabled on 3 May 2019

## Bil Deddfwriaeth (Cymru)
## Legislation (Wales) Bill

**Suzy Davies** **12**

Section 2, page 1, line 18, leave out 'a programme setting out what they intend to do' and insert 'and implement a programme'.

Adran 2, tudalen 1, llinell 19, hepgorer 'rhaglen sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud' a mewnosoder 'a gweithredu rhaglen'.

**Suzy Davies** **13**

Section 2, page 2, line 8, after 'under', insert 'and implementation of'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 8, ar ôl 'rhaglen', mewnosoder 'ac ar weithredu'r rhaglen honno'.

**Suzy Davies** **14**

Section 2, page 2, after line 8, insert—

'(8) In subsection (3)(a) "consolidating" Welsh law means bringing together Welsh law on a particular subject, with no or only minor amendments to the substance of the Welsh law being consolidated.'.

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 8, mewnosoder—

'(8) Yn is-adran (3)(a) ystyr "cydgrynhoi" cyfraith Cymru yw dwyn ynghyd gyfraith Cymru ar bwnc penodol, gyda dim ond mân welliannau, os o gwbl, i sylwedd cyfraith Cymru sy'n cael ei chydgrynhoi.'.

**Suzy Davies** **15**

Section 2, page 2, after line 8, insert—

‘(8) In subsection (3)(a) “codifying” Welsh law means organising and publishing Welsh law by subject matter in a form that improves the accessibility of Welsh law.’.

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 8, mewnosoder—

‘(8) Yn is-adran (3)(a) ystyr “codeiddio” cyfraith Cymru yw trefnu a chyhoeddi cyfraith Cymru yn ôl pwnc ar ffurf sy’n gwella hygyrchedd cyfraith Cymru.’.

**Suzy Davies** **16**

Section 3, page 2, line 23, leave out ‘an Act of the Parliament of the United Kingdom or’.

Adran 3, tudalen 2, llinell 23, hepgorer ‘Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu’.

**Suzy Davies** **17**

Schedule 2, page 22, line 21, leave out ‘an Act of Parliament or’.

Atodlen 2, tudalen 22, llinell 21, hepgorer ‘an Act of Parliament or’.

**Dai Lloyd** **18**

Section 1, page 1, after line 16, insert—

‘(3) In this Part, “accessibility of Welsh law” includes—

(a) the availability of up-to-date Welsh law;

(b) the navigability of Welsh law;

(c) the clarity and certainty of effect of enactments that form Welsh law;

(d) the utilisation of technology to make Welsh law freely available to the public;

(e) the availability of commentary on Welsh law that is freely available to the public.’.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 17, mewnosoder—

‘(3) Yn y Rhan hon, mae “hygyrchedd cyfraith Cymru” yn cynnwys—

(a) argaeledd cyfraith gyfredol Cymru;

(b) pa mor hawdd ydyw i chwilio cyfraith Cymru;

(c) eglurder a sicrwydd effaith deddfiadau sy’n ffurfio cyfraith Cymru;

(d) defnyddio technoleg i sicrhau bod cyfraith Cymru ar gael yn rhad ac am ddim i’r cyhoedd;

(e) argaeledd sylwebaeth ar gyfraith Cymru sydd ar gael yn rhad ac am ddim i’r cyhoedd.’.

**Dai Lloyd** **19**

Section 1, page 1, after line 16, insert—

‘(3) In this Part, “accessibility of Welsh law” includes—

(a) the availability of up-to-date Welsh law;

(b) the navigability of Welsh law;

(c) the clarity and certainty of effect of enactments that form Welsh law.’.

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 17, mewnosoder—

‘(3) Yn y Rhan hon, mae “hygyrchedd cyfraith Cymru” yn cynnwys—

(a) argaeledd cyfraith gyfredol Cymru;

(b) pa mor hawdd ydyw i chwilio cyfraith Cymru;

(c) eglurder a sicrwydd effaith deddfiadau sy’n ffurfio cyfraith Cymru.’.